Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth
Bersonol Cymru (WASPI)

Canllawiau Sicrhau Ansawdd ar gyfer Protocolau Rhannu Gwybodaeth

I sefydliadau sydd ynghlwm ag amddiffyn, diogelwch, iechyd, addysg a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru

(gan gynnwys sefydliadau yn y sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector)

Fersiwn 5.2 (2026)

Cynnwys

Y Broses Sicrhau Ansawdd 2

Cyflwyniad 2

Gwiriad Cychwynnol gan Dîm WASPI 2

Trywydd Archwilio 4

Grwpiau Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol 4

ISPs a Gymeradwyir 5

Adolygu ISPs 5

Atodiad A - Proses Sicrhau Ansawdd 6

Y Broses Sicrhau Ansawdd

Cyflwyniad

1.1 Paratowyd y canllawiau hyn i gefnogi sicrhau ansawdd **Protocolau Rhannu Gwybodaeth (ISPs)** o dan y fframwaith cenedlaethol a ddarperir gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn benodol â'r templed ISP sydd ar gael ar wefan WASPI - www.waspi.llyw.cymru.

1.2 Mae'r canllawiau hyn ar gyfer y sawl sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd, gan gynnwys awduron ISPs, tîm WASPI, aelodau Grwpiau Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol ac eraill sy'n ymwneud â'r broses. Bwriedir eu defnyddio pan fydd drafft terfynol ISP wedi'i gytuno ar y cyd gan yr holl sefydliadau partner. Am ganllawiau ar sut i ddatblygu ISP, gweler y **'Canllaw ar ddatblygu ISP'** ar wahân sydd ar gael ar wefan WASPI.

1.3 Mae'r broses sicrhau ansawdd wedi'i chynllunio i sicrhau cysondeb yn y broses o ddatblygu ISP a chysondeb yn y defnydd o'r templed. Mae hyn yn rhoi hyder i sefydliadau bod ISPs wedi'u datblygu'n briodol, yn unol â chanllawiau WASPI, ac mae hyn yn helpu sicrhau uniondeb y fframwaith WASPI. Bydd cysondeb wrth ddefnyddio'r templed yn helpu sicrhau y caiff ISPs o ansawdd da eu llunio a gellir cyhoeddi'r rhain ar wefan WASPI fel enghreifftiau o arfer da.

1.4 Nid yw sicrhau ansawdd wedi'i gyfyngu i ISPs newydd yn unig, a dylai ISPs a 'addaswyd' yn seiliedig ar ISP a sicrhawyd sydd eisoes yn bodoli, fynd drwy'r broses sicrhau ansawdd yn yr un modd.

1.5 Nid yw ISPs yn gyfreithiol rwymol ond maent yn galluogi sefydliadau i ddogfennu sut y byddant yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau allweddol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth bersonol. Nid yw'r broses sicrhau ansawdd wedi'i chynllunio i feirniadu arferion gwaith sefydliadau partner neu i orfodi sefydliadau partner i weithio mewn ffordd benodol. **Y sefydliadau partner dan sylw sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn cael eu rheoli'n briodol. Nid yw proses sicrhau ansawdd ISP yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol a dylai sefydliadau partner sy'n gysylltiedig â'r ISP geisio cyngor priodol, os oes angen, cyn rhannu gwybodaeth bersonol.**

Gwiriad Cychwynnol gan Dîm WASPI

1.6 Rhaid i ISPs gael eu datblygu a'u cytuno ar ôl ymgynghori â phob sefydliad partner. Dylid datblygu drafft terfynol yr ISP yn unol â'r '**Canllaw ar ddatblygu ISP**' sydd ar gael ar wefan WASPI.

1.7 Ar ôl i'r holl sefydliadau partner gytuno ar y drafft terfynol, dylai awdur yr ISP (sef yr unigolyn o'r sefydliad arweiniol sydd wedi rheoli'r broses o ddatblygu a drafftio'r ISP) anfon yr ISP drafft at y Tîm WASPI canolog - waspiservice@wales.nhs.uk.

1.8 Mae'r Tîm WASPI canolog, sydd wedi'i leoli o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn gyfrifol am gynnal gwiriad cychwynnol o'r ISP. Bydd Tîm WASPI yn cymharu'r ISP a gyflwynwyd yn erbyn y '**Rhestr Wirio Sicrhau Ansawdd ISP**'. Mae copi o'r rhestr wirio hon ar gael ar y wefan fel enghraifft. Bydd tîm WASPI yn rhoi eu sylwadau ac yn nodi unrhyw faterion yng ngholofn gyntaf y tabl ac yn llenwi'r blwch 'Penderfyniad Tîm WASPI', sydd â thri dewis:

Parhau: Nid yw tîm WASPI wedi nodi unrhyw broblemau â'r ISP a gynigir.	**Cam Gweithredu ar gyfer tîm WASPI:** Anfon yr ISP a'r rhestr wirio at grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol ar gyfer ei gynnwys yn y cyfarfod nesaf. Anfoner copi at awdur yr ISP.
	Cam gweithredu ar gyfer y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol: Ychwanegu'r ISP at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Pan fydd hyn wedi'i drefnu, hysbysir awdur yr ISP a rhoddir gwybod iddynt am y gofyniad iddynt hwy/ i berson arall fynychu'r cyfarfod i gyflwyno'r ISP.
	Cam gweithredu ar gyfer awdur yr ISP: Nodi'r person perthnasol a fydd yn mynychu cyfarfod y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol.

Mân Faterion: Mae tîm WASPI wedi nodi mân faterion yn yr ISP arfaethedig, ond gellir delio â'r rhain pan fydd y Grŵp Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol yn ystyried yr ISP.	**Cam Gweithredu ar gyfer tîm WASPI:** Fel yr uchod.
	Cam gweithredu ar gyfer y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol: Fel yr uchod.
	Cam gweithredu ar gyfer awdur yr ISP: Ystyried sylwadau tîm WASPI. Os derbynnir gwelliannau a awgrymir, caiff yr ISP a'r rhestr wirio eu diweddaru rhoddir copi i dîm WASPI ac i gyfarfod y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol. Nodir person perthnasol i fynychu'r cyfarfod.

Pryderon Sylweddol: Mae tîm WASPI wedi nodi pryderon mawr sy'n debygol o arwain at fethu cymeradwyo'r ISP. Mae enghreifftiau o bryderon sylweddol yn cynnwys: adrannau cyfan sy'n anghyflawn; newidiadau i'r strwythur neu'r testun safonol; neu mae'n amlwg nad oes angen ISP neu y byddai cytundeb o fath gwahanol yn fwy priodol.	**Cam Gweithredu ar gyfer tîm WASPI:** Rhoi gwybod i awdur yr ISP.
	Cam gweithredu ar gyfer y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol: Dim (ni anfonir yr ISP ymlaen).
	Cam gweithredu ar gyfer awdur yr ISP: Ystyried sylwadau tîm WASPI. Trafod â thîm WASPI a/neu gael cyngor gan eu swyddog diogelu data/arweinydd llywodraethu gwybodaeth.

Trywydd Archwilio

1.9 Mae tîm WASPI yn defnyddio'r rhestr wirio sicrhau ansawdd a rheolaeth ar fersiynau i gadw trywydd archwilio ar gyfer sylwadau a newidiadau. Anogir awduron ISPs a grwpiau sicrhau ansawdd rhanbarthol i wneud yr un peth. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y rhan fwyaf o grwpiau sicrhau ansawdd rhanbarthol yn defnyddio cofnodion cyfarfodydd i gofnodi penderfyniadau.

Grwpiau Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol

Diben ac aelodaeth

1.10 Mae grwpiau sicrhau ansawdd rhanbarthol yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol ynglŷn â chymeradwyo ISPs a ddatblygwyd yn eu hardal/rhanbarth. Mae'r grwpiau'n cynnal uniondeb y fframwaith WASPI, yn sicrhau bod ISPs yn addas i'w rhannu fel enghreifftiau o arfer da, ac yn cadarnhau bod y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth wedi'u hasesu a'u lliniaru'n briodol.

1.11 Mae'r grwpiau sicrhau ansawdd rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o sefydliadau. Mae gan yr aelodau gefndiroedd llywodraethu gwybodaeth/diogelu data ac mae ganddynt brofiad o ddefnyddio'r fframwaith WASPI. Mae amlinelliad o'r aelodaeth ynghyd â manylion cyswllt cadeiryddion y grwpiau i'w gweld ar wefan WASPI.

1.12 Mae pum grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol yn bodoli: sef Partneriaeth De Ddwyrain Cymru, De Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cwm Taf a Gogledd Cymru. Mae pob grŵp yn cynnal nifer o gyfarfodydd trwy gydol y flwyddyn.

Cyfarfodydd

1.13 Mae gan y grwpiau sicrhau ansawdd rhanbarthol eu cylch gorchwyl eu hunain.

1.14 Mae'r rhan fwyaf o grwpiau sicrhau ansawdd rhanbarthol yn gofyn i gynrychiolydd y gwasanaeth a gefnogir gan yr ISP fynychu'r cyfarfod i gefnogi'r broses sicrhau. Nid oes rhaid i'r cynrychiolydd fod yn awdur yr ISP, ond dylent fod yn unigolyn â gwybodaeth briodol am y ISP a ddatblygwyd a'r gwasanaeth a fanylir yn yr ISP. Hefyd, dylai grwpiau roi rhybudd priodol i'r awdur i'w galluogi i drefnu y byddant yn bresennol.

1.15 Yn y cyfarfod, bydd aelodau'r grŵp yn trafod yr ISP ac yn holi'r cynrychiolydd. Rhoddir adborth ar lafar i awdur yr ISP (os byddant yn mynychu'r cyfarfod), a dilynir hyn gan adborth ysgrifenedig (gan ddefnyddio'r rhestr wirio neu gofnodion y cyfarfod) Bydd y grŵp yn rhoi un o'r dyfarniadau canlynol i'r ISP:

- **Cymeradwyaeth** – Mae'r grŵp o'r farn bod yr ISP yn enghraifft o arfer dda ac nid oes angen unrhyw newidiadau. Bydd y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol yn anfon y penderfyniad hwn at yr awdur ac at dîm WASPI, a fydd wedyn yn cyhoeddi'r ISP ar y Gofrestr ISPs a Chytundebau sydd ar gael ar Wefan WASPI.
- **Cymeradwyaeth yn amodol ar newidiadau** – Mae'r grŵp o'r farn bod angen newidiadau. Caiff yr ISP a sylwadau eu trosglwyddo'n ôl at awdur yr ISP. Dylid gwneud newidiadau'n brydlon ac anfonir yr ISP at y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol neu at dîm WASPI, fel y cytunwyd. Ar ôl gwneud newidiadau, bydd yr ISP yn cael ei gyhoeddi ar y Gofrestr ISPs a Chytundebau sydd ar gael ar Wefan WASPI.

- **Heb ei gymeradwyo, ac angen newidiadau mawr** – Mae'r grŵp o'r farn nad yw'r ISP yn barod i'w gymeradwyo a bod angen newidiadau mawr iddo. Bydd y grŵp yn anfon sylwadau at awdur yr ISP, a ddylai ystyried yr adborth, ymgynghori â sefydliadau partner ac arweinwyr llywodraethu gwybodaeth/diogelu data cyn gwneud newidiadau. Ar ôl gwneud newidiadau, dylid anfon yr ISP at dîm WASPI. Bydd angen ystyriaeth bellach gan y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol.
- **Heb ei gymeradwyo** – Penderfynodd y grŵp na ddylid dilyn yr ISP ymhellach. Bydd y grŵp yn rhoi eu rhesymau i awdur yr ISP. Mae rhesymau cyffredin dros beidio â chymeradwyo ISP fel a ganlyn: mae angen math gwahanol o gytundeb (e.e. contract Prosesu Data) neu y cefnogir rhannu gwybodaeth gan gontract neu gytundeb sydd eisoes yn bodoli. Mae ymgysylltiad cynnar â swyddogion diogelu data/arweinwyr llywodraethu gwybodaeth yn gallu helpu i osgoi'r sefyllfa hon.

1.16 Cyfrifoldeb y grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol yw rhoi gwybod i dîm WASPI am ganlyniadau ar gyfer ISPs a ystyriwyd mewn cyfarfodydd er mwyn galluogi tîm WASPI i ddiweddaru'r Gofrestr ISPs a Chytundebau.

ISPs a Gymeradwyir

1.17 Ar ôl cael sicrwydd gan grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol, dylai awdur yr ISP drefnu i bob Sefydliad Partner lofnodi yn Atodiad C yr ISP.

1.18 Dylai'r llofnodwr fod ag awdurdod i lofnodi'r ISP ar ran y sefydliad. Er enghraifft, gallai fod yn Swyddog Diogelu Data, yn Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth, neu'n Bennaeth Gwasanaeth. Yn achos sefydliadau llai o faint, gallai fod yn Brif Swyddog Gweithredol.

1.19 Nid oes angen anfon yr ISP wedi'i lofnodi at dîm WASPI. Fodd bynnag, dylai awdur yr ISP roi gwybod i dîm WASPI pan fydd pob llofnodwr wedi llofnodi'r ISP fel y gallant ddiweddaru eu cofnodion.

Adolygu ISPs

1.20 Mae'n bwysig bod ISPs yn cael eu diweddaru a'u bod yn adlewyrchu'r arferion rhannu gwybodaeth y maent yn eu cefnogi. Dylai'r sefydliad arweiniol ar gyfer ISP sicrhau bod mecanwaith yn ei le ar gyfer adolygu.

1.21 Mae'r '**Canllaw ar ddatblygu ISP**', sydd ar gael ar wefan WASPI, yn cynnwys sefyllfaoedd a ddylai arwain at adolygiad. Dylai adolygiadau gael eu cynnal gan y sefydliad arweiniol trwy ymgynghori â phob sefydliad partner. Noder mai enghreifftiau yw'r sefyllfaoedd a restrir yn y canllawiau, ac yn y pen draw, mater i'r sefydliad arweiniol yw penderfynu pryd mae angen adolygiad.

1.22 Mae ISP a adolygwyd yn dilyn yr un broses ag ISP newydd.

Atodiad A - Proses Sicrhau Ansawdd